

Cyngor Sir Ynys Môn

Polisi Gweithgareddau Codi ac Offer Codi

Fersiwn 1.0 Medi 2016

Am y polisi hwn

Mae'r weithdrefn hon yn nodi sut y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio ac yn gweithredu gofynion y Rheoliadau Gweithgareddau Codi ac Codi Offer 1998.

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau ar wefan y Cyngor.

Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Medi 2016	
	Awst 2017	Dim newidiadau
	Gorffennaf 2018	Dim newidiadau
	Awst 2019	Dim newidiadau
	Awst 2020	Dim newidiadau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Adolygir y polisi ar :	Mehfin 2020
Cynhelir yr adolygiad gan:	Iechyd a Diogelwch

Manylion cyswllt: 01248 752820

Health&Safety@ynysmon.gov.uk

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

Cynnwys

- 1.0 Cyflwyniad**
- 2.0 Diffiniad**
- 3.0 Dyletswyddau o dan y Rheoliadau**
- 4.0 Mesurau Ataliol yn y Gweithle**
- 5.0 Cyfrifoldebau**

1.0 Cyflwyniad

Mae'r weithdrefn hon yn nodi sut y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio ac yn gweithredu gofynion y Rheoliadau Gweithgareddau Codi ac Codi Offer 1998.

Mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn asesu'r holl risgiau a'r peryglon all effeithio ei weithwyr, sydd yn defnyddio gweithgareddau codi fydd yn digwydd fel rhan o'u gweithgareddau dyddiol. Fe wneir hyn er mwyn sicrhau bod hynny'n cael ei wneud heb risgiau i iechyd a diogelwch ac nad yw'r offer codi a ddefnyddir yn y lle gwaith yn achosi risgiau.

2.0 Diffiniad

Bydd LOLER yn cael ei ddiffinio'n aml fel offer codi sy'n cael ei ddefnyddio yn y gwaith i godi a gostwng llwythi. Bydd yn cynnwys atodiadau all gael eu defnyddio i angori, i sicrhau neu i gynnal llwyth. Mae offer codi yn cwmpasu ystod eang o eitemau sy'n cynnwys:

- Craeniau
- Hoistiau
- Slingiau cadwyni, boltiau llygaid ac ati
- Codwr(wyr) siswrn
- Tryc(iau) fforch godi
- Liff(iau) pobl
- Platfform(au) gweithio y gellir eu codi
- Hoistiau bath a nifer o rannau eraill o offer.

3.0 Dyletswyddau o dan y Rheoliadau

Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn ddarparu system ddiogel o waith i ddiogelu gweithwyr, fel sydd ei angen o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a Rheoliadau Gweithgareddau Codi ac Offer Codi 1998 (LOLER).

4.0 Mesurau Ataliol yn y Gweithle

Bydd rheolwyr Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau bod asesiadau risg addas a digonol yn cael eu cynnal ar offer codi ac y gweithredir systemau diogel o waith, er mwyn lleihau'r risg i iechyd a diogelwch i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol.

Rhaid i'r asesiad risg nodi a oes unrhyw risg sylweddol e.e. oherwydd gwisgo trwy ddefnydd helaeth, allai olygu bod angen am archwiliad(au) rhwng yr archwiliadau manwl a nodi hefyd a fyddai'r rhain yn archwiliadau gweledol neu'n rhai technegol.

Rhaid i holl ddefnyddwyr unrhyw offer codi ddefnyddio'r offer hwnnw yn unol ag ymarferion gweithio diogel a chydag unrhyw wybodaeth, cyfarwyddyd neu hyfforddiant wedi'i sicrhau. Lle bo offer codi'n cael ei ddefnyddio yn eiddo'r Cyngor ac mewn ardaloedd o dan reolaeth Cyngor Sir Ynys Môn rhaid i'r offer hwnnw:

- Fod yn ddigon cryf, cadarn ac addas i'r defnydd arfaethedig, yn ogystal ag unrhyw lwyth fydd yn cael ei godi neu ei ostwng ar atodiadau a ddefnyddir.
- Fod wedi'i osod a'i leoli er mwyn atal y risg o niwed.
- Fod wedi'i farcio'n briodol lle bo offer o'r fath yn cael ei ddefnyddio i godi pobl gan fod yn ddiogel i'r pwrpas hwnnw.
- Fod wedi'i archwilio'n drwyadl cyn bod yr offer codi'n cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf.
- Gael ei archwilio'n fanwl o bryd i'w gilydd yn unol â'r gofynion gan berson cymwys.

Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod gweithwyr yn gymwys a chyda'r wybodaeth, y profiad, yr hyfforddiant, sgiliau a'r gallu angenrheidiol i ddefnyddio'r offer codi.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad(au) risg, rhaid datblygu systemau diogel o weithio a'u defnyddio ar gyfer pob gweithgaredd codi. Rhaid i'r asesiad risg ystyried yr amgylchedd gweithio, y lleoliad daearyddol, amodau'r safle lleol ac ati lle mae'r offer yn cael ei ddefnyddio.

Systemau Diogel o Weithio

Cynllunio gweithgareddau codi

Rhaid cynllunio pob gweithgaredd codi i'w gweithredu gan berson cymwys gyda'r wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant digonol i sicrhau bod y gweithgareddau codi'n cael eu gwneud yn ddiogel. Rhaid i'r cynllun ddelio â phob un o'r risgiau a nodwyd, yr adnoddau sydd eu hangen, a'r gweithdrefnau a'r cyfrifoldeb sydd ynglŷn â hynny.

Efallai na fydd ond angen cynllun cychwynnol ar gyfer gweithgareddau beunyddiol fel llwytho cerbydau gyda thryc fforch godi, ac fe ellir ei adolygu o bryd i'w gilydd er mwyn gwneud yn siŵr bod y cynllun yn parhau i fod yn briodol. Fe ddylid, yn ddelfrydol, adolygu gweithgareddau beunyddiol bob chwe mis.

Efallai y bydd gweithgareddau codi mwy cymhleth yn galw am gynllun newydd bob tro y gwneir y gweithgareddau hynny, yn arbennig os byddant yn cael eu gwneud mewn safleoedd gwahanol.

Goruchwylio gweithgareddau codi

Rhaid i reolwyr sicrhau bod unrhyw weithiwr(wyr) y Cyngor yn gymwys i ddelio â'r gweithgareddau codi a bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i sicrhau bod y gweithgaredd yn cael ei wneud yn ddiogel. Pryd bynnag y bo'n ymarferol, ni ddylid byth godi llwythi tros ardal lle mae pobl eraill. Lle nad yw hynny'n bosibl, rhaid sicrhau systemau gweithio diogel er mwyn lleihau'r risgiau i unrhyw un sydd o dan y llwyth.

Llinellau pŵer, carthffosydd a draeniau

Rhaid i reolwyr asesu pob risg oddi wrth linellau pŵer sydd uwchben sydd angen eu hystyried, ac yn sgil offer codi ar neu yn agos i ddraeniau a charthffosydd oherwydd fe all hynny gyflwyno peryglon ychwanegol lle gellir cael risg y bydd pethau'n dymchwel.

Archwilio Offer

Mae cynnal archwiliadau ac ymchwiliadau manwl ar offer codi yn rhannau pwysig o'r rheoliadau codi. Rhaid i'r gwaith archwilio gael ei wneud gan berson cymwys gyda phrofiad o'r offer, sydd fel arfer yn annibynnol, ac sydd yn aml yn gweithio i yswiriwr. Fodd bynnag, fe all unrhyw un sydd yn ddigon gwybodus ac wedi'i hyfforddi i'r pwrpas wneud y dyletswyddau hyn.

Fe ddylid archwilio'r offer yn fanwl ar y cychwyn, a hynny fel arfer yn cael ei wneud gan y gwneuthurwr neu'r cyflenwyr cyn cyflenwi'r offer. Wedyn fe ddylid archwilio'r offer yn flynyddol, ar wahân i offer a ddefnyddir i godi pobl, y bydd yn rhaid eu harchwilio bob 6 mis.

Mae'n bwysig bod y person sy'n derbyn yr adroddiadau archwilio a chynnal a chadw gan archwilwyr y liffitiau yn deall eu cynnwys a'u pwysigrwydd a bod gweithdrefn glir yn ei lle i roi'r gorau i ddefnyddio unrhyw offer ar unwaith os bydd angen hynny.

Offer codi sy'n cael ei logi

Os bydd y Cyngor yn llogi offer am gyfnodau byr neu ar gyfer waith penodol, mae'n hanfodol bod y Cyngor yn sicio cofnodiadau archwilio'r offer a bod y cwmni hurio yn rhoi digon o wybodaeth a hyfforddiant er mwyn sicrhau y bydd yr offer yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel.

Cadw cofnodiadau

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn cadw'r dogfennau gwreiddiol ar gyfer yr holl offer codi, a hefyd yr holl adroddiadau archwilio wedi hynny a'r cofnodiadau cynnal a chadw gan y gall archwilwyr diogelwch ofyn i gael gweld y rhain.

5.0 Cyfrifoldebau

Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Lefel Un

Prif Swyddog Gweithredol yw'r person sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Rhaid i'r Prif Swyddog Gweithredol ag Dirprwy Swyddog Gweithredol sicrhau bod y pennaeth gwasanaeth yn gwneud eu dyletswyddau fel y nodir nhw ceir yn y weithdrefn hon. Rhaid i gyfarwyddwyr sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r weithdrefn hon.

Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Lefel Dau

Rhaid i Prif Swyddog Gweithredol(Dirprwy Swyddog Gweithredol) a Phenaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod gan eu hadain neu adran yr adnoddau priodol i allu cydymffurfio gyda'r weithdrefn hon. Mae adnoddau'n cynnwys staff, amser a chyllid.

Rhaid i bob rheolwr lefel dau sicrhau bod rheolwyr llinell a gweithwyr yn derbyn digon o wybodaeth. Bydd hyfforddiant a chyfarwyddyd yn cael ei roddi i bob gweithiwr ynglŷn â gweithgareddau codi ac offer codi.

Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Lefel Tri

Dyletswydd rheolwyr lefel tri yw asesu pob risg a pherygl all effeithio gweithwyr sy'n defnyddio gweithgareddau codi fel rhan o'u gwaith pob dydd a bod hynny'n cael ei wneud heb unrhyw risg i iechyd a diogelwch ac nad yw unrhyw offer codi ddefnyddir yn y gweithle yn cyflwyno risgiau.

Rhaid i reolwyr sicrhau bod y cyfan o'r canlynol yn cael ei gwblhau cyn bod unrhyw weithiwr yn defnyddio offer codi, sef:

- Bod yr holl offer codi mewn meysydd o dan eu rheolaeth wedi'u nodi a'u cofnodi mewn llyfr.
- Bod pob gweithred o godi rhywbeth/rhywun wedi'i chynllunio, yn cael ei goruchwyllo ac yn cael ei wneud mewn dull diogel.
- Bod pob risg sy'n codi o weithgareddau yn ymwneud ag offer codi wedi'i hasesu a bod mesurau rheoli addas ar waith.
- Bod gwybodaeth, hyfforddiant a chyfarwyddyd addas yn cael ei roi i'r rhai sy'n defnyddio offer codi a'u bod yn gymwys i wneud y tasgau hynny.
- Bod dyddiad archwilio'r holl offer codi wedi'i nodi a bod trefniadau wedi'u gwneud i berson cymwys wneud y gwaith archwilio a bod yr holl offer codi ar gael i'w archwilio.
- Sicrhau y gwneir gwaith trwsio ar unrhyw ddiffyg a welir ar unrhyw offer yn ystod unrhyw archwiliadau a wneir o'r offer.
- Bod cofnodiadau yn cael eu cadw am bob archwiliad a wneir o'r offer codi.
- Bod unrhyw ddiffygion ac ati yn derbyn sylw priodol yng nghyswllt yr offer.

Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch

Rhaid i Ymgynghorydd(wyr) Iechyd a Diogelwch ddarparu cyngor ar y weithdrefn hon a'r ddogfennaeth gefnogol.

Gweithwyr

Bydd yn ddyletswydd ar bob gweithiwr sy'n defnyddio offer codi i sicrhau:

- Eu bod yn cymryd gofal rhesymol drostynt eu hunain ac eraill all gael eu heffeithio gan eu gweithgaredd.
- Eu bod yn derbyn cyfarwyddyd a hyfforddiant y bernir bod ei angen.
- Bod offer codi'n cael ei ddefnyddio yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r Cyngor a chyfarwyddyd y gwneuthurwyr.
- Eu bod yn adrodd yn ôl am unrhyw broblemau, diffygion, pryderon neu beryglon tebygol ddaw i'w rhan gydag offer codi mor fuan ac sy'n bosibl i'w rheolwr llinell.
- Eu bod yn sicio offer codi a nwyddau treuliedig sy'n gysylltiedig â hwy e.e. slingiau, cyn eu defnyddio a hynny yn unol â'r wybodaeth, yr hyfforddiant a'r cyfarwyddyd a dderbyniwyd.

- Nad ydynt yn defnyddio'r offer codi mewn ffordd fyrbwyll a pheryglus.

Gwybodaeth Bellach

Am wybodaeth bellach cysylltwch â'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar estyniad 01248 752802.

1.0